

Cenn@d

GORFFENNAF 20 2022 YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 73

Sioe Fawr 2022

Gan na chynhaliwyd y sioe ers 2019, mae pobl cefn gwlad yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael ailymgynnull eleni. Mae'r gymuned amaethyddol yn un glòs iawn yma yng Nghymru ac mae gan y rhai sy'n byw mewn llefydd mwy torfol yn aml ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd yng nghefn gwlad. Mae gennym lawer i fod yn ddiolchgar amdano, o gael byw mewn gwlad mor brydferth.

Er hyn oll, tydi hi ddim yn wynfyd o bell ffordd. Mae achosion iselder ysbryd wedi bod ar gynydd yn ddiweddar yn sgil heriau cynyddol. Bu'r cyfnodau clo yn sgil Covid yn anodd i lawer ar draws ein gwlad: unigrwydd ac ansicrwydd yn dilyn newidiadau gwleidyddol a pholisïau amaeth.

Trist iawn oedd diwrnod yr ymosodiad ar lwcráin a'r dioddefaint sy'n parhau. Mae sgilleffeithiau'r rhyfel yn cael eu teimlo ar draws y byd, ond yn enwedig gan y tlotaf a'r llai breintiedig. Mae cyflenwadau

bywd y byd, oedd eisoes o dan straen, wedi'u taflu bellach i stad o argyfwng. Dywedodd y Cenhedloedd Unedig yn ddiweddar fod 274 miliwn o bobl yn wynebu newyn oherwydd yr argyfwng.

Mae amaethu, gofalu am y tir ac anifeiliaid wedi bod yn weithgarwch dyn ers y dechreuad, gyda hanesion lu yn y Beibl am ffermwyr fel Abraham, Isaac a Jacob. Gadawodd Jacob ei gartref ar adeg o newyn a symud ei deulu i lawr i'r Aifft i sicrhau diogelwch ei blant. Mae hanes Joseff yn un diddorol iawn yn y modd y bu i Dduw roi doethineb iddo i lywodraethu'r wlad.

Rhaid i ninnau gydnabod gorchymyn y Beibl i ni warchod a llywodraethu'n ofalus yr hyn sydd wedi'i roi i ni yn y byd. Cydnabyddwn nad yw'r byd yn berffaith: mae effaith y cwmp - beth mae'r Beibl yn ei alw'n bechod - i'w weld o'n cwmpas ac yn ein calonnau ninnau.

Defnyddiodd Iesu Grist ddarluniau o fyd amaeth wrth iddo bregethu'r efengyl, y newyddion da am ras Duw a'i ddaioni tuag atom. Roedd aberth Iesu Grist ar y groes yn brawf o hynny, a'i atgyfodiad yn dyst i'r aberth fodloni sancteiddrwydd Duw.

Byddaf wrth fy modd yn adrodd geirau salm 23: 'Yr Arglwydd yw fy Mugail, ni bydd eisiau arnaf'.

Mae pob ffarmwr defaid yn gwybod pa mor anodd yw gofalu amdanynt, ac nid ydym ninnau fel pobl yn wahanol. Ond diolch na wna Bugail Mawr y defaid fyth droi ei gefn ar unrhyw un fydd yn ei geisio: 'Y Bugail da sy'n rhoi ei einioes dros y defaid'. (Ioan 10:11)

Aled Jones

(Aled yw Llywydd NFU Cymru eleni)



Y sied gneifio o dan ei sang ar gyfer Cymanfa Ganu Moliant y Maes, gyda Chôr Aelwyd Dyffryn Clwyd yn cyflwyno eitemau ar y llwyfan



Mae'r Sioe yn cychwyn yn ffurfiol bob blwyddyn gydag oedfa yn Eglwys Llanelwedd. Eleni, gyda Sir Clwyd fel prif noddwyr y Sioe, yr Esgob Gregory Cameron oedd y pregethwr gwadd

**William Evans, 'Doctor Tyndomen' –
un o arwyr bro'r Eisteddfod**
Tudalen 2

**Caredigrwydd dieithriaid yn dod â
gobaith ym mynyddoedd Wcráin**
Tudalen 5

Llongyfarch ac ordeinio ym Môn
Tudalen 7

William Evans, 'Doctor Tyndomen' – un o arwyr bro'r Eisteddfod

Mae Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion wrth y drws wedi'r holl edrych ymlaen. Ac mae i Dregaron le cynnes iawn yn fy nghalon i gan mai yno y bŵm yn yr ysgol uwchradd am saith mlynedd a derbyn **addysg lawn**. Heddiw, fel mewn sawl ysgol uwchradd arall, fe ddiflannodd y chweched dosbarth – a dyna golled! Dyma'r cyfnod lle caem ein meithrin fel dinasyddion drwy gael trafodaethau sylweddol o dan gyfarwyddyd prifathrawon fel D. Lloyd Jenkins a Glyn Ifans. Caem ein trwytho yn hanes cyfoethog yr ardal a'i henwogion.

Wrth deithio drwy Tregaron rai dyddiau'n ôl, es heibio Bryndomen, lle treuliodd y llawfeddyg ymgynghorol William Evans ei ymddeoliad wedi gyrfa ddisglair yn Harley Street. Rai blynyddoedd yn ôl cyhoeddodd y Dr Buddug Owen (un o ferched Argoed, Llangwryfon, a fu'n anesthetydd yn Ysbyty Glan Clwyd) gofiant teilwng iddo dan y teitl *A Rare Hero*. Gelwid ef yn 'Ddoctor Tyndomen' ar lafar gwlad, gan mai ar fferm Tyndomen y ganed ef, a hynny ar 24 Tachwedd 1895.

Bu llwybr ei fywyd yn un disglair a'i gyfraniad i gleifion a chymdeithas yn ddfesur. Dengys y gyfrol hon ôl ymchwil fanwl, ac mae'r awdur wedi llwyddo i ennyn edmygedd y darlennydd cyffredin o'r cychwyn cyntaf. Dilynwn gamre'r myfyriwr ifanc yn dringo o ris i ris yn y maes meddygol ac yn mynnu cynnal y safonau a'r gwerthoedd uchaf. Drwy holl stori'r daith gwelwn ei hunanddisgyblaeth yn dod i'r wyneb: byddai'n darllen pennod o'r Beibl bob dydd.

Gwelwn enghreifftiau gwych ohono fel cyfathrebwr da, ac yn sicr dyma un o sgiliau pwysicaf y proffesiwn. Dyma rai o'r

ymadroddion cofiadwy a ddefnyddiai wrth ddarlithio i'w fyfyrwyr: 'to be dumb at a patient's bedside is to miss the opportunity to make him better' ac 'euthanasia is murder glossed over'.

Daeth yn gardiolegydd enwog oedd yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol, a deuai gwahoddiadau o bedwar ban iddo ddarlithio. Prawf o'i allu arbenigol unigryw yw'r ffaith mai ef a alwyd i weld y Prif Weinidog Stanley Baldwin yn 1937 pan oedd yntau'n anhwylyd. Credai'n gryf mewn digon o ymarfer corff, ac wrth annerch cynhadledd o 'wŷr coler a thei' un tro ei gyngor oedd: 'Gwerthwch y car, prynwch gi; cerddwch – ac ewch i arddio.'


Yn 1967, wedi iddo ymddeol, dychwelodd i fyw ym Mryndomen, bynglo cyfleus ar dir yr hen gartref yn Nhyndomen:

Tua'r lle bu dechrau'r daith
Af yn ôl i fy nylaith.

Treuliodd Buddug Owen rai wythnosau yn aros yn y bynglo ym Mryndomen cyn ysgrifennu'r gyfrol er mwyn cael cyfle a hamdden i synhwyro'r awryglych.

Ac yntau bellach wedi ymddeol, daeth cyfle nawr i'r doctor wneud gwaith corfforol a mwynhau'r awyr iach. Torchodd ei lewys, a dyma adeiladu cytiau i'r lloi, cynel i'r ci a gosod concrit ar y llwybrau. Roedd galw mynych am ei wasanaeth i annerch gwahanol gymdeithasau a medrai wneud i bwnc sych swnio'n ddiddorol.

Tra oedd yn Uchel Siryf Ceredigion, cofiaf amdano'n dod i annerch yng nghyfarfod gwobrwyo'i hen ysgol uwchradd yn Nhregaron. Ac er bod hanner can mlynedd ers hynny rwy'n cofio rhai o'i gynghorion hyd heddiw.



Wrth basio Bryndomen y diwrnod o'r blaen fe brociwyd y cof a dyma rai ohonynt:

1. Caewch bob drws yn dawel: mae tawelwch yn helpu rhywun i fynd drwy fywyd yn urddasol.
2. Mae codi o'ch sedd pan ddaw merch i mewn i'r ystafell yn arwydd o aeddfedrwydd.
3. Cynigiwch eich sedd i ferch neu berson hŷn ar fws neu ar drên.
4. Cerddwch ar yr ochr allan i ferch ar balmant a meithrin ysbryd y Samariad.
5. Meithrinwch foesgarwch wrth y bwrdd.
6. Byddwch yn daclus a thrwsiadus.
7. Byddwch yn brydlon.
8. Cydnabyddwch bob llythyr yn brydlon!

Gobeithio y cawn glywed mwy o hanes Dr William Evans yn ystod y Brifwyl; yn sicr, roedd yn un o feibion disgleiriaf y fro.

Beti Griffiths

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r Parch. Robert Parry, ei dad Roland, a'i deulu wedi iddo wynebu'r brofedigaeth o golli ei fam, Mrs Elinor Parry, Deganwy, yn ddiweddar.

Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad â'r Parch. W. Bryn Williams a'i deulu yn y brofedigaeth o golli ei fam, Mrs Megan Williams, Llanrug.

Wrth gydymdeimlo â theuluoedd yn eu galar estynnwn fwy na geiriau o gysur. Estynnwn addewidion yr Arglwydd Iesu Grist ei hun. Ef a ddywedodd wrthym, 'Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; yr wyf yn rhoi i chwi dangnefedd.'

Ac o'r gofal hwnnw y daw ein gobaith bob amser.

Dathlu pen-blwydd arbennig

Ddydd Mawrth, 28 Mehefin, yr oedd Mrs Annabelle Thomas, Brodawel, Cefn Gorwydd, Llangamarch, yn dathlu pen-blwydd arbennig, yn ganmlwydd oed. Cafwyd parti yn neuadd y pentre yn Llangamarch, lle daeth llu o ffrindiau, cymdogion ac aelodau o'r teulu at ei gilydd. Mae Mrs Thomas wedi bod yn flaenores yng nghapel Gosen, Cefn Gorwydd, ers 1965; mae'n dal yn ysgrifennydd y capel ac yn weithgar a ffyddlon i'r achos.

Lowri Jones



Dathlu daucanmlwyddiant Jabes, Cwm Gwaun

Lansio cyfrol hanes yr achos

Fel cymaint o ddigwyddiadau eraill, bu'n rhaid gohirio dathliadau daucanmlwyddiant eglwys Jabes, Cwm Gwaun, oherwydd y pandemig a chyfnodau clo'r ddwy flynedd ddiwethaf. Ond yn ystod ail benwythnos mis Mehefin, daeth nifer dda ynghyd i nodi'r achlysur. Dechreuwyd ar y nos Wener gyda lansiad y llyfr ar hanes yr achos a ysgrifennwyd gan ein cyn-weinidog, y Parch. Alwyn Daniels. Mwynhawyd paned a sgwrs a bu llawer o drin thrafod ar yr arddangosfa o luniau a baratowyd. Roedd yn braf cael y cyfle i weld pa wyneb oedd yn sylw mas arnom o'r goffennol. Paratowyd fideo'n arbennig ar gyfer y lansiad, a chafwyd cyfle i glywed rhai o leisiau'r eglwys heddi'n tynnu ein sylw at rai o ddigwyddiadau ddoe yn ogystal â mwynhau golygfeydd o'r cwm yn ei harddwch a'i ogoniant.

Oedfa gymun

Bore Sul, 12 Mehefin, daeth eglwysi Cylch Carn Ingli a nifer o ffrindiau eraill ynghyd i oedfa gymun, eto yng ngofal ein cyn-weinidog. Rhannodd y gynulleidfa gyfan yn y rhannau arweiniol, a oedd yn gyfle i addunedu i ymroi i waith eglwys lesu yn y fro ac i weddio am arweiniad Duw arnom i'r dyfodol. Wrth ystyried hanes ein heglwys, cofiwyd am y bobl fu'n weithgar, am y gymdeithas fu'n ddiwyd ac am y Duw fu'n gydymaith i'w bobl bob amser.

Cymanfa Penfro

Ddydd Mawrth, 14 Mehefin, cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol Cymanfa Bedyddwyr Penfro (yr Adran Gymraeg). Gwahoddwyd y cyfarfodydd i gapel Jabes gan fod yr eglwys yn dathlu'r garreg filltir bwysig hon. Yn ogystal â hynny, neilltuwyd Mrs Marian Phillips, ysgrifennydd gweithgar yr eglwys, yn Llywydd y Gymanfa am eleni. Daeth tymor (hir) John Davies i ben, ac yntau wedi aros yn y swydd am na chynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a diolchwyd iddo am ein harwain drwy'r cyfnod hwn.


Cynhaliwyd y gynhadledd i ddechrau, a chyn cloi dangoswyd y fideo ar hanes Jabes eto. Cadarnhawyd Mr Aled Davies fel ein trysorydd a chroesawyd y Parch. Geraint Morse fel ein hysgrifennydd newydd. Bydd y Parch. Alwyn Daniels, ei ragflaenydd, yn parhau mewn rôl weinyddol. Cyflwynwyd Mr Cerwyn Davies, Bethel, Mynachlog-ddu, fel yr is-lywydd newydd. Yn dilyn y gynhadledd cafwyd oedfa bregethu gyda'r Parch. Rhosier Morgan yn cymryd at y rhannau arweiniol cyn i'r Parch. Sian Elin Thomas bregethu ar dröedigaeth Saul o



Mrs Marian Phillips, Llywydd newydd Cymanfa Bedyddwyr Penfro, gyda'r Parch. Geraint Morse, ysgrifennydd newydd y Gymanfa; Mr Cerwyn Davies, is-lywydd; Mr John Davies, cyn-lywydd; a'r cyn-ysgrifennydd, y Parch. Alwyn Daniels

Darsus. Croesawyd Sian Elin fel gweinidog newydd i'n Cymanfa ynghynt yn y gynhadledd.

Yn oedfa'r hwyr neilltuwyd Marian Phillips fel ein Llywydd newydd a chafwyd neges berthnasol ac effeithiol ganddi ar y testun 'Llwybrau'. Cyfeiriodd at lwybrau ffoaduriaid Wcráin, a chyflwynwyd casgliad y noson tuag at apêl Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr i helpu'r rhain.




Y Parch. Alwyn Daniels yn llofnodi copi o'i gyfrol ar hanes Eglwys y Bedyddwyr, Jabes, Cwm Gwaun, 1820-2020

Wedi tair blynedd o fod ar wahân, mae cyflwr nifer o'r eglwysi yn y Gymanfa yn fregus ac yn peri gofid, ond diolch i'r rhai ddaeth ynghyd, a diolch am ymdrech ffyddloniaid ein heglwysi mewn dyddiau digon anodd. Prin fod angen dweud bod aelodau Jabes wedi mwynhau'r dathlu ac wedi gweithio'n ddiwyd mewn cymaint o ffyrdd gwahanol, yn ôl eu harfer, i wneud y dathliad yn un cofiadwy.

Mae'r gyfrol ar hanes Jabes ar werth mewn rhai siopau lleol ac ar gael gan nifer o swyddogion yr eglwys am bris rhesymol o £7.

Bonni Davies





O Gefn Gwlad



'Ble'r aeth yr Amen?'

Dyna'r cwestiwn yr oeddwn yn ei ofyn wedi'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst, yr eisteddfod ddiwetha a gynhaliwyd. Cwestiwn sydd yn un o ganeuon adnabyddus y tenor enwog o'r ardal honno – Richie Thomas. A hynny oherwydd yr hyn ddigwyddodd i'r diwylliant crefyddol yn Eisteddfod 2019.

Rhag imi fod yn grintachlyd yn dilyn yr ŵyl yn Llanrwst, rhaid prysuro i ddweud y cafwyd eisteddfod i'w chofio, a chynllunio a gweithio anhygoel ar ran pawb oedd ynglŷn â hi, gan gynnwys ymdopi'n rhyfeddol â'r tywydd cwblwll anffodus ddaeth i ymweld â'r dyffryn at ddiwedd yr wythnos. Haeddant ein clod a'n diolch fel cenedl, ac nid wyf yn credu am eiliad mai'r pwyllgorau lleol oedd yn gyfrifol am yr hyn oedd yn peri pryder i mi.

Rwy'n digwydd credu mai un o agweddau pwysicaf Cristnogaeth yw'r diwylliant crefyddol, hynny ydi, yr agweddau ar ddiwylliant ddaeth i fod oherwydd ein crefydd: yn llyfrau, yn emynau, yn donau, yn weithiau cerddorol mawr, yn gyfarfodydd a dathliadau o bob math, yn wasanaethau crefyddol hefyd. Y cyfan yn cyfrannu at ein gwarediddio. Yn wir, mi ddwedwn i fod yr agwedd hon ar Gristnogaeth cyn bwysiced, os nad yn bwysicach, nag achubiaeth bersonol. Y mae o i mi, beth bynnag, gan fy mod yn poeni llawer mwy am yr hyn sy'n digwydd yn y byd hwn na'r hyn allasai ddigwydd yn y byd a ddaw.

Yr hyn yr wyf am dynnu sylw ato yw tri pheth ddigwyddodd yn haf 2019. Un wrth gyhoeddi Eisteddfod Tregaron a dau yn Llanrwst.

Yn y seremoni cyhoeddi fe hepgorwyd un emyn o'r rhaglen er mwyn rhoi amser i Ail Symudiad, y grŵp lleol o Aberteifi, gael cymryd rhan. Dim byd yn erbyn hynny ond, mewn difri, 'dyw emyn ddim yn cymryd mwy na rhyw dri munud i'w ganu. Oedd angen ei hepgor o'r seremoni? Mater bach efallai, ond mi wyddoch am y dywediad Saesneg am welltyn yn y gwynt.

Yna, yn yr Eisteddfod ei hun fe gyfyngwyd y Gymanfa Ganu i awr a hanner, yn hytrach na dwyawr, a hynny i Gymanfa



y mae ei hamser eisoes wedi ei gyfyngu oherwydd cynnwys cyflwyno a gwranddo ar araith arweinydd y Cymry alltud. Gwir i Trystan Lewis wneud yn fawr o'r amser canu, a diolch mai fo oedd yr arweinydd, ond mae hyn eto'n arwydd bychan o agweddau a'r duedd i gyfyngu ar y diwylliant crefyddol. Yna'r gwaethaf un: symud y gwasanaeth fore Sul i'r capel yn y dre.

le, mewn capel y cynhaliwyd yr oedfa, nid yn y pafiliwn, ei phriod le yn ystod yr ŵyl, ac nid ar y maes hyd yn oed. A diddorol oedd y rhesymau a gafwyd o'r canol fel petai am hyn: rhaglen lawn yn y pafiliwn ac angen yr amser, trafferthion efo tocynnau am ddim i'r mynychwyr (a hynny 'yn nyddiau'r glanio ar y lloer'), cyfle i'r eisteddfod ymestyn i'r dref a rhoi i dddinasyddion Llanrwst y teimlad fod y Steddfod yn dod atyn nhw. O ddifri? Cau'r bariau a'r lleoedd bwyta ar y maes am saith ar ambell noson fyddai wedi gwneud hynny yn llawer mwy effeithiol. Ar ben hyn oll, yn ôl y sôn ac am ryw reswm, methodd cannoedd dderbyn y gwasanaeth ar y radio er ei fod wedi ei hysbysebu, ac fe benderfynodd uchel arglwyddi S4C beidio â'i deledu.

Er tegwch, rhaid croesawu'r faith y bydd yr oedfa eleni yn y pafiliwn yn Nhregaron, a gobeithio'n wir y caiff y diwylliant crefyddol ei amddiffyn gan bwyllgorau lleol eisteddfodau'r dyfodol hefyd.

Mae angen bod yn wylidwrus. O gangen i gangen y dinistrir y pren. Cofiwn fod yna leisiau croch sydd eisau troi'r cyfan o'n diwylliant yn ddiwylliant seciwlar, a bod i anffyddiaeth a seciwlariaeth ryw barchusrwydd mawr y dyddiau hyn. Mor hawdd sicrhau dirywiad: canu 'Dyro, o

haul, dy nawdd' yng ngweddi'r Orsedd, dileu unawdau allan o oratorios o'r cystadlaethau, hepgor yr emyn o bob dathliad. Fel yna, fydd crefydd yn ein Heisteddfod yn ddim mwy nag 'eco pell rhyw fwyn garolau', chwedl Arthur Gwyn Jones, un o feirdd amlwg bro Eisteddfod Llanrwst.

Mae'r byd yn newid, mae'r ŵyl yn newid; a heb newid ni all barhau i ffynnu. Rwy'n deall hynny, ond gwyliwn rhag i'r 'Amen', sy'n air ar ddiwedd gweddi, ddod yn air i ddiweddu traddodiad gwerthfawr hefyd.

Elfyn Pritchard



Cynhelir darlith dan nawdd Adran Diwinyddiaeth Graddedigion Prifysgol Cymru

yn

Eisteddfod Genedlaethol
Ceredigion 2022

'Cerdd a Chredo:
ydi cerdd grefyddol yn bosibl heddiw?'

gan Dr Rowan Williams,
Cyn-archesgob Caergaint

Cymdeithasau 2
Prynhawn dydd Mercher, 3 Awst
am 1.30 o'r gloch

Croeso i bawb

Caredigrwydd dieithriaid yn dod â gobaith ym mynyddoedd Wcráin

Mae Karen McDonnell yn weithiwr dyngarol gyda Chymorth Cristnogol yn Wcráin. Dyma'i hadroddiad am Wcrainiaid, yn cynnwys y gwan a'r oedrannus, sy'n ffoi rhag yr ymladd yn y dwyrain.

Fe wnes i gyfarfod â Natasha mewn byngalo oedd yn cael ei rannu gan dri theulu yn ucheldir gorllewin Wcráin, mewn pentref diarffordd o'r enw Borynya. Rydym wedi cyrraedd gyda'n partner lleol i gofrestru pobl sydd wedi eu dadleoli fel y gallent dderbyn cymorth.

Dim ond 25 oed ydi Natasha, a phan ofynnwyd iddi beth oedd hi'n ei wneud cyn iddi ddod yma, goleuodd ei hwyneb: 'Rwy'n gerddor; rwy'n chwarae'r bandura.' Mae pawb yn dechrau curo'u dwylo. Yn llawn cyffro, maent yn gofyn iddi chwarae offeryn cenedlaethol Wcráin.

Am ennyd, yn y mynyddoedd, wedi ei hamgylchynu gan ddieithriaid, mae Natasha yn dechrau chwarae ei cherddoriaeth. Offerynnol yw rhai darnau, ond mae eraill yn troi'n gydganu. Mae Natasha yn gwridio â balchder wrth i'r dyrfa ei chanmol: 'Dwi ddim yn gallu chwarae i bobl yn aml iawn; roedd hyn mor neis.'

Mae ei theulu, yn cynnwys ei rhieni, un brawd a thair chwaer, yn dal i fod yn Kherson, sydd ym meddiant Rwsia. Yn ofalus, gofynnaf iddi a ydynt yn ddiogel. Mae'n gwenu: 'Ydyn, maen nhw'n ddiogel ond alla i ddim mynd atyn nhw ac allan nhw ddim dod oddi yno.'

Mae Kherson tua 1,300 cilometr o'r lle rydyn ni'n eistedd, ac oes i ffwrdd o'i hastudiaethau yn academi cerdd Dnipro. Awgrymodd ei thad y dylai fynd â'i bandura gyda hi pan oedd hi'n ffoi, fel y gallai fyscio petai ganddi ddim byd ar ôl.

Daeth yma oherwydd ei bod yn adnabod un person yn y lloches – dyn o'i heglwys yn Dnipro, a ddywedodd ei bod yn ddiogel yno a bod y trigolion lleol yn bobl dda. Meddyliais yn uchel tybed a oedd hi'n colli bywyd y ddinas, a gwenodd eto, a dweud: 'Rwy'n caru natur.'



Karen McDonnell



Alla i ddim dychmygu bod yn 25 oed, wedi fy rhwygo oddi wrth fy nheulu, â dim ffordd o nghynnal fy hun mewn gwlad sydd ynghanol rhyfel. Ni yw'r asiantaeth datblygu ryngwladol gyntaf i gynnig cefnogaeth ar ffurf arian parod iddi. Pan ofynnais iddi sut y byddai'n ei wario mae'n gwridio: 'Dim ond pethau merched.'

Wrth symud i bentref arall, dyma ddysgu fod y niferoedd [y bobl wedi eu dadleoli] yn mynd i fyny ac i lawr. Doedd y maer ddim yn hollol siŵr faint o bobl oedd yn ei gymuned.

Fel hyn y mae hi ym mhobman. Rydym yn clywed am bobl yn symud yn ôl tuag at y rheng flaen, ac yna'n dychwelyd – wedi eu rhwygo rhwng y teimlad o fod yn ddiogel a'r teimlad nad ydynt yn perthyn ac am gael bod adref.

Daeth y maer â ni i'n tŷ cyntaf. Fe ddysgom ni nad oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi eu cofrestru fel pobl wedi eu dadleoli'n fewnol. Golyga hyn nad oes ganddynt fynediad at unrhyw fath o gymorth. Felly, fe wnaethom ni fynd ati i'w cofrestru.

Mae rhai cyrff anllwyodraethol yn dweud y dylid cofrestru pobl, ond dyw llawer ddim yn mynd i'r drafferth oherwydd bod ganddynt ofn, neu ddim yn gwybod y gallent wneud hynny, neu nad ydynt yn gallu oherwydd anabledau.

Does dim un asiantaeth cymorth fawr yma. Mae'n bell iawn o'r canolfannau poblog, ond i'r fan hon y daw rhai o'r bobl fwyaf bregus i chwilio am loches. Does dim mynediad i'r rhyngwrwyd, bron, na ffôn yma, na gwybodaeth ar gael.

Ceisiodd un o aelodau staff ein partner siarad ag un wraig drallodus oedd yn ofni rhoi gwybodaeth. Pan oedd yn dawelach, aethant i'w thŷ fel y byddai'n teimlo'n fwy

diogel. Yn ei chartref roedd dau berthynas oedrannus ac anabl.

Roedd y tri ohonynt wedi byw o dan y ddaear am 40 diwrnod yn Kharkiv. Cawsent eu bomio bob dydd. Mae'r ddwy wraig yn siarad am brinder meddyginiaeth ar gyfer y dyn, sydd â nifer o afiechydon meddyliol a chorfforol.

Mae ei feddyginiaeth yn costio 50 ewro bob mis. Maent wedi ffoi yma oherwydd iddynt ddeall bod ystafell ar gael iddynt. Nawr does ganddynt ddim ar ôl, ac maent yn ofni cofrestru gan nad ydynt yn gwybod beth allai hynny ei olygu.

Oherwydd hyn, rydym yn rhoi grantiau diogelwch i'r teuluoedd hyn: arian parod y gellid ei roi iddynt yn y fan a'r lle er mwyn prynu meddyginiaeth, neu gadair olwyn o bosibl, heb orfod aros. Rhoddir digon i'r teulu ar gyfer y cyffuriau am bedwar mis. Y diwrnod hwnnw, fe wnaethom newid eu bywyd.

Ar ddiwedd ymweliad hir, aethom ati i ddibrifio'r staff lleol oedd wedi bod yn cadw cyfrif o'r bobl oedd angen help. Roedd yn rhaid iddynt ddygymod â gwranddo ar storïau hynod o anodd: Rwsiaid yn dwyn popeth, a derbyn lluniau o'u cartrefi wedi eu dinistrio.

Dim ond un diwrnod yn y maes yw hwn. Mae rhai o'n staff wedi mynd drwy'r trawma hwn eu hunain a nawr yn gwranddo ar storïau trallodus eraill. Rydym yn cymryd eu lles o ddirif drwy gynnig hyfforddiant ar sut i reoli straen a phryder.

Serch hynny, does neb yn y tîm am roi'r gorau iddi. Bydd mwy o ddyddiau fel hyn yn y misoedd i ddod. Allwn ni ddim newid popeth dros nos, ond rydym yn rhoi gobaith iddynt am yfory gwell.

O'r Beibl: 9

Y Gwynfydau (2)

“Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.”

(Mathew 5:3)

Ceir wyth gwynfyd yn Efengyl Mathew, 5:3-10. Mae pob un ohonynt yn dechrau â'r un ymadrodd: 'gwyn eu byd'. Ond beth yw ystyr y geiriau hyn?

Yn ôl ein geiriaduron Cymraeg, 'gwynfyd' yw 'llawenydd', 'hapusrwydd' neu 'ddedwyddwch'. Nid yw 'gwyn eu byd' yn ymadrodd anghyfarwydd gan ein bod yn ei ddefnyddio ambell dro yn ein Cymraeg cyfoes. Pan ddywedwn fod rhywun yn 'wyn eu byd', rydym yn golygu eu bod nhw'n arbennig o lawen a hapus.

Y gair Groeg – iaith wreiddiol Efengyl Mathew – am 'gwyn eu byd' yw 'makarios', sy'n llythrennol yn golygu 'hapus'. Er mai dyma ystyr lythrennol y gair, yn gyffredinol, mae cyfieithwyr y Beibl wedi gochel rhag cyfieithu'r gair hwn fel 'hapus'. Pam? Wel, mae 'hapus' yn air rhy arwynebol. Heddiw, mae 'hapusrwydd' yn aml yn dibynnu ar ein teimladau ac mae'n mynd ac yn dod, yn dibynnu ar ein hamgylchiadau. Nid dyma yw ystyr y gair 'makarios'. A dyma pam mae'r rhan fwyaf o gyfieithwyr yn dewis ei gyfieithu fel 'bendith'. Er enghraifft, mae beibl.net yn cyfieithu adnod 3 fel hyn: 'Mae'r rhai sy'n teimlo'n dlawd ac annigonol wedi'u bendithio'n fawr' ac mae'r rhan fwyaf o Feiblaau Saesneg yn cyfieithu 'gwyn eu byd' fel 'blessed be'.

Dyma'r esboniad gorau o ystyr 'gwyn eu byd': y rhai sydd wedi'u bendithio gan Dduw, y rhai sydd o dan fendith Duw. Nid yw 'gwyn eu byd' yn cyfeirio'n bennaf at ein *hemosiynau*, ond at ein *perthynas* â Duw. Yn wir, y cwestiwn pwysig i'w ofyn yw: beth mae'n ei olygu i fod yn 'wyn ein byd' – bod dan fendith Duw – yn ôl y Beibl? Nid yw'n golygu cael llawer o eiddo, cael tŷ mawr, cael teulu hyfryd, cael swydd arbennig, cael iechyd da. Na, yn ôl y Beibl, bod yn 'wyn ein byd', yng ngwir ystyr yr ymadrodd, yw mwynhau perthynas iawn gyda Duw trwy Iesu. Dyma beth yw ystyr bod yn 'wyn ein byd'.



'Tlodion yn yr Ysbryd'

Ond, *pwyyw'r bobl sy'n 'wyne eu byd'*? Pwy yw'r bobl hynny sydd wedi'u bendithio gan Dduw? Wel, mae'r Gwynfydau yn rhoi rhestr o rinweddau'r bobl hynny sy'n perthyn i Deyrnas Dduw – y rhai sy'n 'wyn eu byd'. Yn adnod 3, cawn ein cyflwyno i'r rhinwedd gyntaf: 'gwyn eu byd y rhai sy'n *dlodion yn yr ysbryd*'.

Mae hyn yn annisgwyl! Byddem yn disgwyl i'r adnod ddarllen 'gwyn eu byd y rhai sy'n *gyfoethogion yn yr ysbryd*'. Wedi'r cyfan, ym mhob oes, onid y cyfoethog sy'n wyn eu byd, sydd wedi'u bendithio, sy'n hapus? Mae Iesu'n troi disgwyliadau'r byd wyneb i waered trwy ddweud: 'gwyn eu byd y rhai sy'n *dlodion yn yr ysbryd*'.

Sylwch mai 'tlodion yn yr ysbryd' mae Iesu'n ei ddweud. Nid rhywbeth materol yw'r tloidi hwn, ond rhywbeth ysbrydol. Beth felly yw ystyr 'tlodion yn yr ysbryd'? Wel, yn syml, y 'tlawd yn yr ysbryd' yw'r rhai sy'n cydnabod eu tloidi ysbrydol, y rhai sydd wedi edrych y tu mewn i'w calonnau a sylwi eu bod nhw'n dlawd yn ysbrydol. Mae'r ffordd y mae beibl.net yn cyfieithu'r adnod yn ein helpu ni i ddeall hyn: 'Mae'r rhai sy'n teimlo'n dlawd ac annigonol wedi'u bendithio'n fawr.' Bod yn dlawd yn yr ysbryd yw sylwi mai pechaduriaid ydym ni sydd angen help Duw. Heddiw, clywn yn aml am gwmniau sy'n gorfod cyhoeddi eu bod nhw'n fethdalwyr – *bankrupt*. Bod yn

dlawd yn ysbrydol yw cydnabod ein bod yn fethdalwyr ysbrydol.

Yn ôl Iesu, dyma'r math o bobl fydd yn cael 'etifeddu teyrnas Dduw'. Dyma'r math o bobl sy'n perthyn i Deyrnas Dduw. Mae pob Cristion wedi cydnabod eu bod nhw'n 'dlodion yn yr ysbryd'.

Cymhwyso

Beth am gymhwyso hyn i'n bywydau bob dydd? Yn ddi-os, mae cydnabod ein bod ni'n 'dlodion yn yr ysbryd' yn beth radical iawn i'w wneud heddiw. Rydym yn byw mewn oes sy'n dweud wrthym mai'r ffordd i fod yn wirioneddol hapus yw trwy 'gredu ynom ni'n hunan' (*believe in yourself*). Ond y broblem gyda 'credu ynom ni'n hunan' ydy fod gwneud hyn, yn eironig iawn, yn ein llenwi ag ansicrwydd a diffyg hyder. Rydym yn siomi ein hunain ac nid ydym yn gallu cyrraedd ein disgwyliadau ni ein hunain. Er bod 'credu ynom ni'n hunain' yn addo rhyddid, yr hyn mae'n ei wneud mewn gwirionedd yw ein caethiwo.

Yn y Gwynfydau, fodd bynnag, mae Iesu'n ein hannog ni i wneud y gwrthwyneb. Mae'n ein hannog nid i gredu ynom ni'n hunan ond i sylwi ein bod ni'n wag, yn dlawd ac yn anghenus. Y newyddion da ydy fod Iesu'n gwybod yn iawn sut bobl ydym ni; mae'n gwybod yn iawn pa mor wael, gwag a phechadurus ydym. Ond eto, mae'n dewis ein caru â chariad mor fawr nes iddo farw ar y groes er mwyn i dlodion ysbrydol gael profi holl gyfoeth trugaredd Duw. Ydym ni wedi dod at Iesu eto gan gydnabod ein tloidi ysbrydol a gofyn iddo am ei help?

Cwestiynau i feddwl amdanynt:

- Beth mae 'gwyn eu byd' yn ei olygu?
- Sut bobl yw'r rhai hynny sy'n 'dlodion yn yr ysbryd'?
- Ym mha ffordd mae bod yn 'dlawd yn ysbrydol' yn wahanol i syniadau'r byd?

Gwilym Tudur

BBC | radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 24 Gorffennaf, am 7:30yb a 4.30yp

Wyn James yn bwrw golwg ar Michael D. Jones ar ddaucanmlwyddiant ei eni

Oedfa Radio Cymru

Sul, 24 Gorffennaf, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Nerys Griffiths, Caernarfon

Llongyfarch ac ordeinio ym Môn

Cafwyd cyfarfod arbennig o Henaduriaeth Môn, dan lywyddiaeth y Parchg Megan Williams, nos Fawrth, 28 Mehefin, yng Nghapel Mawr Porthaethwy, pryd yr ordeiniwyd Mrs Myfanwy Roberts yn flaenor yn eglwys Rehoboth, Burwen, gan gyn-lywydd y Gymdeithasfa, y Parchg Eric Jones. Yn ei anerchiad fe'n prociodd i feddwl drwy ofyn tri chwestiwn: a ydym yn gofalu digon am y dyfodol? A ydym yn barod i newid a mentro tipyn? A ydym yn ufudd i gomisiwn y Crist byw? Gorffennodd drwy ein sicrhau nad oes disgwyl inni wneud dim yn ein nerth ein hunain: 'Ac mi a fyddaf gyda chwi'n wastadol hyd ddiwedd amser.'

Yn ystod y cyfarfod hefyd fe longyfarchwyd gweinidogion a blaenoriaid ar eu hordeiniad:

60 mlynedd: Y Parchg Emlyn Richards a'r Parchg Cledwyn R. Williams;

50 mlynedd: Mr Vivian Jones Hughes, Bethlehem, Carreglefn a Mr Leslie Lloyd Jones, Hyfrydle, Caerdybi;

40 mlynedd: Y Parchg Jim Clarke, Blaenor/Gweinidog; Mrs Helen C. Jones, Ty'n y Maen, Llanfugail; R. Geraint Thomas, Capel Mawr, Amlwch; Griffith W. Owen, Moreia, Llangefni; a Hefin A. Davies, Capel Mawr, Porthaethwy, blaenor yn y Cyfundeb.

Cyflwynwyd iddynt dystysgrif y Gymdeithasfa ynghyd â cherdd y Prifardd Cen Williams mewn ffrâm:

Chwi, halen y gymdogaeth,
Goleuni'r Henaduriaeth,
Am ddegawdau o wasanaeth,
Diolch i Dduw.

Fe roesoch o'ch bywydau
Dalp helaeth iawn o'ch dyddiau;
Gwneud mwy na'ch dyletswyddau
Er mwyn Duw.

Heddiw, ar ran pob aelod,
Yr ydym yn cydnabod
Eich llafur llwyr ddiamed
Gerbron Duw.



Jane Richards Y Parchg Eric Jones, Mrs Myfanwy Roberts, Y Parchg Megan Williams (Llywydd) a Jane Richards (Ysg.)


Gwerthfawrogi cyfraniad yng Nghaerdybi

Yn ein hoedfa yng nghapel Hyfrydle, Caerdybi, ar 26 Mehefin, cymerwyd y cyfle i longyfarch Mr Leslie Lloyd Jones am gwblhau hanner can mlynedd fel blaenor yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Fe'i hetholwyd yn flaenor yn Hyfrydle yn 1972 ac mae wedi rhoi gwasanaeth gwerthfawr i'r eglwys ac i eglwysi'r sir dros y blynnydoedd.

Llongyfarchwyd ef, ynghyd â blaenoriaid a gweinidogion eraill o'r Henaduriaeth, ar ran Henaduriaeth Môn gan y Parch Eric Jones mewn eisteddiad o'r Henaduriaeth a gynhaliwyd ym Mhorthaethwy nos Fawrth, 28 Mehefin.

Derbyniodd dystysgrif a chopi o gerdd a gyfansoddwyd gan Dr Cen Williams, Llanfaelog, i ddathlu'r achlysur.

Dymunwn bob bendith iddo gyda'r gwaith sydd mor agos at ei galon.



Robyn Williams

Mr Leslie Lloyd Jones gyda'i dystysgrif

Hadau Gobaith - Diwedd Taith Noddedig Llywydd y Gymanfa



Wrth gwblhau rhan olaf y daith o amgylch yr Henaduriaethau, sef rhif 14, nos Fercher 13 Gorffennaf, hoffwn ddiolch i bob un sydd wedi cyfrannu wrth gydgarddedd â mi a chefnogi'r holl deithiau. Braf oedd cyfarfod cymaint ohonoch. Diolch am eich gwaith i gyd yn lleol o ddydd i ddydd. Rydym yn gwerthfawrogi!

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

'Dysg ni i weddio'

Eryn 205: 'Dyma gariad fel y moroedd'

Darlenn: Salm 85

Gweddï dros yr eglwys

Arglwydd, diolchwn i ti dy fod yn Dduw trugarog. Fe gofiwn heddiw sut y daethost at dy bobl mewn cenedlaethau a fu. Daethost atom mewn trugaredd gan adfer llwyddiant dy bobl drachefn a thrachefn. Ac yn dy drugaredd, ni roddaist i ni beth yr oeddem yn ei haeddu. Arglwydd, deisyfwn ar i ti adfer dy bobl eto. Ti yw Duw ein hiachawdwriaeth. Paid â dal dy ddiig cyfiawn yn ein herbyn.

Adfywia ni, gwareda ni, cyhoedda dy heddwch; bydded i'th ogoniant orffwys yn y tir. Llefara wrthym drachefn, Arglwydd Iesu. Cadw ni rhag ffolineb ein bwriadau ein hunain. Cyhoedda dy air yn ein plith a bendithia gyhoeddwy'r dy Air. Tyrd atom, nid mewn gair yn unig, ond yn yr Ysbryd Glân a chydag argyhoeddiad mawr.

Diolchwn i ti dy fod wedi dangos meddyliau oras ac o hedd pan ddaethost yn 'llawn gras a gwirionedd' yn dy Fab Iesu Grist. Diolch bod cariad a gwirionedd wedi cyfarfod ynddo ef a bod cyfiawnder a heddwch yn cusanu euog fydd.

Diolch drwy ei eiriolaeth ef fod llen y deml wedi ei rhywgo a bod yr orsedd fawr yn awr yn rhydd. Yn enw Iesu Grist, tywallt dy Ysbryd Glân arnom drachefn fel y bydd ffyddlondeb yn tarddu yn ein plith, a daioni ac adferiad i'w brofi yn ein tir. Arglwydd, gweddïwn dros gynulleidfa oedd ein gwlad. Rho i ni dy ddaioni, dy gyfiawnder a'th heddwch. Rhodia'n rhydd yn ein plith fel y bydd ein cymdeithas, ein cenedl a'n broydd yn profi llawnder dy ymweliad. Arglwydd, edrych i lawr arnom fel y bydd ffyddlondeb yn tarddu o'r ddaear a chyfiawnder yn siriol wenu ar dy blant o'r nefoedd.

Gogonedda dy hun a thrugarha wrthym, er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Darlenniad: Luc 11:1-13 'Pan weddi'wch'

Rhywun peryglus ar y ffordd yw'r 'gyrwy'r da' sy'n esgeulus wrth yrru ac sydd heb dalu sylw am eu bod yn 'adnabod y ffordd'. Gall cynefindra arwain at esgeulustod, ac at ddamwain ddirifol. A gall cynefindra â hanesion am Iesu Grist ein harwain ninnau i golli golwg ar arwyddocâd ein haeriadau ffydd.

O'r cychwyn cyntaf roedd Luc am i ni ddeall mai cyflawniad disgwyliadau ei bobl am ymyrraeth Duw yn hanes y byd oedd genedigaeth Ioan Fedyddiwr (yn y lle cyntaf) ac yng ngenedigaeth Iesu Grist. Byddai'r plentyn a aned i Fair Forwyn yn ganlyniad ymyrraeth unigryw Duw: 'Daw'r Ysbryd Glân arnat a bydd nerth y Goruchaf yn dy gysgodi: am hynny gelwir y plentyn a genhedlir yn sanctaidd, Mab Duw' (1:35). Ar ddechrau ei weinidogaeth tystiodd Iesu amdano'i hun fod, 'Ysbryd yr Arglwydd arnaf' (4:16) a'i fod yn cyflawni disgwyliadau pobl yr Arglwydd o bob cenhedlaeth. Pan bregethai, siaradai fel un ag awdurdod, ac ar brydiau 'cododd ofn' ymhlith y rhai a ddaeth i gyswllt ag ef. Pan anfonodd ei ddisgyblion allan ar eu teithiau cenhadol arbrofol, cawsant eu hanfon i gyhoeddi bod 'teyrnas nefoedd' yn agos (10:11).

Rhyfeddod ein ffydd yw ein bod yn credu bod grymoedd teyrnas nefoedd, teyrnas newydd, â disgwyliadau a gwerthoedd newydd, wedi torri i mewn i hanes y byd.

Dysg ni i weddio

Mae ateb Iesu i gais un o'i ddisgyblion am gael ei gyfarwyddo ar sut i weddio, ar y lefel fwyaf arwynebol, yn cynnig ffurf ar eiriau i'w hadrodd yn ein litwrgi wythnosol fel rhan o'n gweddïau cynulleidfaol. Ond mae'r weddi yn llawer mwy na hynny oherwydd mae pob un ohonom sy'n gweddïo'r weddi o'n calon yn uniaethu ein hunain â'r chwyldro dwyfol a ddaeth yn agos yn Iesu Grist, ac a gyflawnir yn Iesu Grist, trwyddo, ac er mwyn!

Beth sydd mewn enw?

Y cyfarchiad cyntaf yw'r chwyldro cyntaf. Ystyriwn hyn: bod crëwr, cynhaliwr y nef a'r ddaear, y dirgelwch a wisgodd gnawd yn Iesu Grist, yn ein gwahodd ac yn caniatáu i ni alw arno fel 'Dad'. Mewn ffordd ryfeddol a dirgel, derbyniwyd pechaduriaid, troseddwy'r euog, a'u gosod yn iawn gyda Duw. Cawsom faddeuant. Derbyniasom rodd o'r Ysbryd Glân i gartrefu ynom fel y medrwn sibwrdd ein cariad yn hyderus, 'Abba, Dad'. Rhyfeddod y Testament Newydd yw fod cariad Duw wedi cymryd gelynydd, pobl oedd - ac sydd - heb unrhyw hawl arno, ac wedi ein prynu a'n mabwysiadu i fod yn blant iddo (1 Ioan 3:1).

Beth sydd mewn dyhead?

Mae'r dyhead, 'Sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneled dy ewyllys ar y ddaear fel yn y nef', yn ein harwain at ddyhead syfrdanol y Cristion. Nid anrhydedd ymerodraeth, na chenedl, na phlaid, nag enwad, na sefydliad daearol o unrhyw fath arall yw ffocws ein dyheadau. Gogoneddu'r enwgogoneddus, ei anrhydeddu, adyrchafu ei urddas yw curiad calon ein henaid mwyach. Dyheu am ddyfodiad terfynol teyrnasiad yr Arglwydd yw canolbwynt ein dyheadau, ein disgwyliadau a'r symbyliad i'n gweithgarwch yn y byd. Disgwyl cyflawniad y gobaith hwn 'ar y ddaear fel yn y nef', a wnawn. Nid teyrnas 'ysbrydol', na ffantasi annelwig, mo hon. Disgwyl yr ydym am gael gweld y deyrnas yn disgyn oddi wrth Dduw i'r ddaear. Dyhëwn am gael gweld y realiti sy'n anweledig ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni ar ein daear dolurus a syrthiedig ni.

Beth sydd mewn disgwyliad?

'Dyro i ni o ddydd i ddydd ein bara beunyddiol: a maddau inni ein pechodau, oherwydd yr ydym ninnau yn maddau i bob un sy'n trosedd yn ein herbyn; a phaid â'n dwyn i brawf'.

Mae gwerthoedd y weddi'n trawsnewid ein dyheadau. Diolchwn am y manna dyddiol a ddaw i'n cynnal ar ein pererindod. Sylweddolwn mai ar faddeuant ac ar drugaredd Duw yr ydym yn byw. Sylweddolwn nad rhywbeth i'w gymryd yn ysgafn mo maddeuant na thrugaredd Duw. Costiodd waed un oedd fel Oen di-fai a dinam, Iesu Grist ei hun, i'n prynu. Ac ar sail ei faddeuant ef, dysgw'n ninnau beth yw ystyr maddau.

Ni fynwn chwaith gael ein baglu gan amgylchiadau fyddai'n peri ein bod yn credu celwydd am Dduw. Ymddiried a wnawn yn naioni'r Arglwydd i'n cadw rhag cael ein baglu gan gynllwynion yr Un drwg, a dyhëwn am gael osgoi rhag syrthio i'r anghrediniaeth honno sydd am osod yr Arglwydd dy Dduw ar brawf.

Pwy feddyliai y medrai gair o weddi droi ein holl werthoedd fel unigolion, cynulleidfa oedd a hil ben i waered?

Gweddïo - Gweddï'r Arglwydd

Eryn 709: 'Arglwydd, dysg i mi weddio'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | hww@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru